

**Tudalen Gynnwys**

**Rhan 1:** Cynllun Gwiethgaredd

**Rhan 2:** Gwerthusiad y Cynllun

**Rhan 3:** Adnoddau effeithiol ar gyfer Mathemateg

**Rhan 4:** Rôl yr Oedolyn

**Rhestr Cyfeirnod**

|                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                 |                                                       |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| <b>Cynllun Gweithgaredd</b><br><b>Activity Plan</b>                                                                                                                                                                                                               |                                                                 |                                                       |
| <b>Gweithgaredd:</b><br>Mathemateg, tu allan gyda rhifau                                                                                                                                                                                                          |                                                                 |                                                       |
| <b>Nifer o blant:</b><br>10 ar y mwyaf, er mwyn sicrhau bod y plant i gyd yn deall beth yn union sydd yn disgwyl iddynt wneud                                                                                                                                     | <b>Oed y plant:</b><br>3 neu 4                                  | <b>Nifer o oedolion:</b><br>2 ar gyfer grwp o 10      |
| <b>Lleoliad:</b><br>Yn y sefydliad, ond tu allan yn yr ysgol fforest ac y cae, er mwyn cael digon o le                                                                                                                                                            | <b>Amser paratoi:</b><br>Hanner awr, er mwyn lameneiddio popeth | <b>Amser gweithgaredd:</b><br>Rhwng 20 munud ac 1 awr |
| <b>Adnoddau:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Numicon ar bapur – wedi eu lamineiddio</li> <li>• Rhifau ar bapur – wedi eu lamineiddio</li> <li>• iPad – i dynnu lluniau</li> <li>• Wetsuits + Wellies i gadw'r plant yn sych, o ddŵr a mwd</li> </ul> |                                                                 |                                                       |
| <b>Amcan/ion y weithgaredd:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant yn adnabod rhifau a chyfaint rhifau</li> <li>• Plant yn deall gwahanol rifau</li> <li>• Plant yn dysgu sut i gyfri o 1 i 10</li> </ul>                                             |                                                                 |                                                       |
| <b>Cysylltiadau â deilliannau:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu sgiliau; cyfathrebu, deall, gwrando, sensorï (wrth fod tu allan)</li> <li>• Cael hyder wrth adnabod rhifau</li> <li>• Maes Dysgu Mathemateg Y Cyfnod Sylfaen</li> </ul>      |                                                                 |                                                       |
| <b>Gwahaniaethu:</b>                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                 |                                                       |

Os bydd angen cymorth ar blentyn o fewn y gweithgaredd, gall aelod ychwanegol o staff rhoi cymorth iddynt ac addasu'r dasg i'w lefel nhw

**Iechyd a diogelwch:**

Asesiad risg wedi ei gwblahu a mae tystysgrif cymorth cyntaf gyda'r oedolion i gyd.

**Rôl yr oedolyn/oedolion:**

I roi cymorth i'r plant pan mae angen bach o gymorth arnynt, i estyn llaw er mwyn rhoi bach mwy o hyder iddyn nhw. I esbonio beth yw amcanion y dasg a sut mae 'numicon' yn gweithio, am eu bod yn weithgaredd newydd.

**Y weithgaredd:**

Helfa trysor mathemateg, tu allan yn y cae ac yn yr ysgol fforest, lle mae plant yn edrych am 'numicon' o 1-10, sydd wedi eu lamineiddio a chuddio o amgylch ardal, ac yna mae rhaid iddynt gysylltu'r numicon gyda'r rhif, wrth edrych amdani fel y numicon, sydd hefyd wedi eu lamineiddio. Wrth wneud hyn, daiff y plant yn ymwybodol o rifau a chyfaint rhifau, mewn ffordd hwylus a deallus. Bydd y gweithgaredd yn dilyn arwainiaeth y plant, felly mae'n ffordd hwylus o ddysgu. Ac wrth ddilyn arwainiaeth y plant gall y dasg arwain at dasgau mathemateg syml eraill, er enghraifft darganfod nifer sbesiffig o bethau, er enghraifft 3 deilen, 4 carreg ac yn y blaen, sy'n datblygu eu sgiliau mathemateg yn bellach. A gall y gweithgaredd cael eu hailadrodd tro ar ôl tro, am eu bod yn teimlo fel gweithgaredd gwahanol, a gall y gweithgaredd cael eu haddasu yn y dosbarth, er enghraifft wneud gwahanol weithgareddau gyda numicon i godi hyder.

## Rhan 2

Gweithgaredd sydd yn galluogi plant i ddatblygu nifer o sgiliau gwahanol, gan gynnwys mathemateg, cyfathrebu, gwrandio a meddwl yw'r gweithgaredd hon. Yn ôl The School Run (2021), wrth ddefnyddio numicon mae'n galluogi i blant i ddeall beth mae cyfaint rhif yn edrych fel, deall perthnasoedd gan edrych ar batrymau rhifau, wrth weld bod pob un gydag un darn ychwanegol neu un darn yn llai. Mae'r gweithgaredd yn eu caniatáu i ddechrau cyfiri yn gywir, wrth ystyried sawl cylch sydd, a beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rhifau. Mae'r gweithgaredd yn un hwylus, lle mae'r plant yn dysgu yn yr awyr agored, yn ôl Tucker (2012) adnoddau naturiol yw'r ffordd gorau i hybu datblygiad plant, felly mae eu haddysgu tu allan yn y peth gorau iddynt ac mae hyn yn annog a chadw diddored y plant, a dylai rhifau cael eu dangos yn bwrpasol iddynt, er mwyn iddynt gefnogi beth yw amcanion y dasg ac er mwyn deall y cysylltiadau mathemategol. Wrth fod tu allan bydd yr adnoddau naturiol fel coed, dail, cerrig ac ati yn rhan o'r dasg wrth iddynt chwarae o'i amgylch ac wrth iddynt effeithio ar sut maen nhw yn mynd i ddarganfod yr eitemau angenrheidiol. Mae'r gweithgaredd ar adnoddau yma hefyd yn rhai penagored, lle mae cyfle gyda'r plant i ddefnyddio numicon mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Nad oes angen llawer o amser i baratoi'r gweithgaredd hwn, wrth lamineiddio'r rhifau a darnau numicon mae'n achub amser, am eich bod yn gallu eu hail-ddefnyddio am weithgareddau gwahanol, gallwch wneud y gweithgaredd hwn yn rhaid iawn ac mae'n costio bron ddim i'w baratoi. Mae'r gweithgaredd syml hon yn rhoi nifer o gyfleoedd i'r plant, gan gynnwys datblygu nifer o sgiliau newydd, gan gynnwys cyfathrebu. Yn ôl Bruner (Pound, 2016), mae dysgu trwy chwarae yn rhoi cyfle i blant i gymdeithasu ac i ehangu eu sgiliau gyfathrebu gydag eraill, creda bod dyletswydd gan aelodau o staff i greu'r gweithgaredd ond yn dilyn arwainiaeth y plant, ac mae hyn yn bosibl iawn o fewn y dasg hon, oherwydd y plant sydd yn dewis sut mae'r gweithgaredd yn cymryd ei le, mae'r gweithgaredd hon hefyd yn addas ar gyfer merched a bechgyn. Pwysleisia Bruner y Cwricwlwm Troellog, sef ailedrych ar y gweithgaredd, er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd rhifau, ac wrth ailedrych arnynt bydd y plant yn dod yn fwy cyfarwydd a mwy hyderus gyda rhifau a numicon. Wrth ystyried syniad Vygotsky o arwyddocâd rhyngweithio cymdeithasol, deallwn fod y gweithgaredd hwn yn hybu'r syniad o gyfathrebu yn bellach, mae'r syniad yma yn cyd-fynd gyda gwaith Bandura, Bruner a Piaget (2021), wrth iddyn nhw

gryfhau'r syniad bod plant yn gweithio yn fwy llwyddiannus y tu allan a gyda eraill, sef pwrpas fy nghwiethgaredd sef helpa trysor mathemateg.

Mae'r dasg yma hefyd yn rhoi hwb i'w sgiliau deall, gwranddo a sensori, wrth iddynt wrando ar gyfarwyddiadau ac esboniad o beth sydd yn digwydd a beth y cysylltiad i fathemateg, ond hefyd wrth i blant eraill trafod eu barn neu beth maen nhw yn meddwl sydd angen wneud, sy'n pwysleisio'r ffaith bod y plant sy'n arwain y gweithgaredd. Caiff y plant y cyfle i ddatblygu eu sgiliau sensori wrth iddynt fod tu allan yn yr awyr agored yn cyffwrdd, gwyntio a datrys problemau sydd yn codi wrth fod tu allan, er enghraifft glaw, gwynt a meddwl yn greadigol am sut i oresgyn problem. Mae'r gweithgaredd yma yn un hawdd i ddeall ac mae'n gallu cael eu haddasu ar gyfer plant ar lefelau gwahanol, sydd yn dysgu ar gyflymderau gwahanol, mae'r gweithgaredd yn codi hyder y plant wrth iddynt lwyddo i ddatys pa rifau a pha numicon sy'n cysylltu, sy'n annog iddynt i eisiau eu gwneud unwaith eto. Mae'n bosibl ymestyn y gweithgaredd hwn, gan annog mwy o fathemateg, wrth ofyn i'r plant beth maen nhw am wneud gyda rhifau a chreu tasgau fel darganfod 3 deilen wyrdd, a 4 carreg fawr ac yn y blaen, sydd yn ymestyn eu meddylfryd, creda Piaget fod hyn yn hanfodol o fewn addysg plant ifanc, am eu bod yn cofio'r gweithgaredd fel 'schema' sy'n eu caniatáu i ddeall beth sydd yn digwydd ac i deimlo'n fwy hyderus wrth ailymweld ar dasg. (Paul Stevens-Fulbrook, Dim dyddiad). Yn ôl y wefan Skills You Need (2021), mae gweithio fel tîm yn hyrwyddo nifer o sgiliau gan gynnwys dysgu am eraill, gwella eich geirfa ac ati, ac o fewn y gweithgaredd hwn mae gwaith tîm yn rhan hanfodol ohoni. Yn debyg dyweda Early Learning HQ (2021) bod caniatáu i blant i weithio mewn grwpiau yn annog dysgu oddi wrth eich gilydd, mae plant fel arfer yn dysgu gorau oddi wrth ei gilydd. Yn ffodus iawn nad oes llawer o bethau yn gallu mynd o'i le yn y gweithgaredd yma, ond gall y tudalennau mynd ar goll, sy'n gwrthod y plant rhag creu cysylltiadau, gall y tudalennau cael eu stirwo gyda'r tywydd ac efallai ni fydd digon o wellies a wetsuits ar gael ar gyfer y plant i gyd o fewn y sefydliad. Ond yn anffodus, ni fydd pob plentyn yn eu deall achos eu lefel o allu, ac felly bydd angen i'r gweithgaredd cael eu haddasu ar eu cyfer, yn ôl Y Cyfnod Sylfaen, (2021) mae'n angenrheidiol i greu tasgau sydd yn addas ar gyfer pawb, er mwyn iddynt ddeall, dysgu a dod yn hyderus. Rôl yr oedolyn o fewn y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod y plant i gyd yn ddiogel wrth wneud y dasg, bydd angen wneud asesiad risg cyn mynd tu allan, gan ystyried beth yw'r perygl, penderfynu pwy sydd yn agored i'r risg, gwerthuso'r risg ac

yna eu monitro (Teach Early Years, 2021). Y perygl gan wneud y dasg hon yw'r plant yn cwmpo a chael eu hanafu, wrth fod tu allan yn yr ysgol goedwig, colli plentyn o fewn y sefydliad ac ati. Rôl arall yw esbonio'r dasg yn syml i'r plant, gan eu galluogi nhw i wneud beth maen nhw am, ac yn ôl Freud mae plant yn datblygu hyder gyda nhw eu hun ac eraill wrth ryngweithio gyda'r byd, ac felly maen nhw'n dysgu gorau wrth gyfathrebu. Mae dyletswydd ganddynt hefyd i annog plant i weithio yn llwyddiannus ac i roi cymorth i eraill os mae angen, ac i fonitro ac asesu plant pan mae'n ofynnol. Wrth asesu'r plant gallwch wedyn penderfynu os mae'r dasg yn eu siwtio ac os maen nhw yn eu deall ac yna paratoi tasgau arall ar eu cyfer sy'n addas ar gyfer eu hanghenion dysgu (Early Resources for Learning, 2014). Gall yr aelodau o staff hefyd defnyddio iPads i dynnu lluniau o'r plant wrth iddynt wneud y dasg, er mwyn i'w rhieni weld eu bod yn wneud tasgau mathemateg hwylus a llwyddiannus, ac er mwyn i'r plant ail-edrych ar y dasg trwy'r lluniau sydd yn eu hatgoffa am beth roedd angen iddynt wneud.

Mae'r Fframwaith Datblygiad Mathemategol Y Cyfnod Sylfaen (2015), yn pwysleisio plant i gyflawni eu potensial llawn, pwysleisia'r Llywodraeth bod chwarae yn rhan ddifrifol a priodol o ddysgu, wrth iddynt chwarae byddent yn "arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau, ac yn wneud penderfyniadau yn unigol ac mewn grwpiau", sef yn union beth fy ngweithgaredd mathemategol, mae angen iddynt gyd-weithio wrth i'r dasg cael ei gyflwyno fel elfen o chwarae. Mae disgwyl i blant i gael profiad llwyddiannus, lle gallent ddatblygu eu sgiliau mathemateg a'i iaith fathemategol, cael profiadau gwahanol wrth ddysgu'r sgiliau, a defnyddio mathemateg fel rhan o'i chwarae, er enghraifft caniatáu iddynt i chwarae gyda'r numicon, a hyn yn union yw fy nhasg, gallant ddefnyddio eu sgiliau newydd ar draws y cwricwlwm i gyd. O fewn y lleoliad mae disgwyl iddynt i allu sylweddoli rhifau, gallu cyfri a'i ddeall hyd at 5, o 1 i 5 ac o 5 i 1, defnyddio termau mathemategol yn gywir, a chaiff hyn i gyd eu hannog o fewn y gweithgaredd, gan eu cwestiynu yn bellach am rifau ac wrth weld beth maen nhw yn eu hadnabod yn barod.

### Rhan 3

Yn gyffredinol mae yna lawer o adnoddau sy'n gweithio yn llwyddiannus i ddatblygu sgiliau mathemateg plant yn y Blynyddoedd Cynnar, sydd yn eu hamrywio o adnoddau naturiol i deganau sydd wedi eu creu ar gyfer plant yn sbesifig. Bu wahanol blant yn dysgu orau o wahanol adnoddau, a bydd eraill yn dysgu orau o fewn sefyllfaoedd gwanhaol, er enghraifft tu allan neu du fewn. Wrth ystyried y Cwricwlwm Newydd gan Donaldson, (2015) mae adnoddau mathemategol yn helpu plant i gyrraedd y 4 ddiben sydd gan y cwricwlwm, gan gynnwys dysgwyr uchelgeisiol a galluog, cyfranwyr mentrus ac ati (Llywodraeth Gymru, 2020).

O fewn lleoliad mae yna nifer gwahanol o adnoddau, sy'n hyrwyddo datblygiad mathemategol, gallwch ddefnyddio adnoddau go iawn, er enghraifft laces esgidiau, sy'n caniatáu plant i greu siapau, neu ddilyn patrwm sy'n eu hannog i ddeall sut mae gwahanol siapau yn edrych ac i ystyried y gwahaniaeth rhwng gwahanol siapau. Wrth ystyried esgidiau, gallwch eu defnyddio i ddatblygu'r syniad o fesuriadau a chymharu maint gwahanol bethau, er enghraifft gallwch ofyn iddynt i ddarganfod eitemau sydd yn llai, yn fwy, yn debyg i gyfaint yr esgid ac ati (Cutler, Dim Dyddiad).

Yn ôl y wefan Early Years Careers, (2016) mae adnoddau naturiol fel dŵr a thywod yn gallu hyrwyddo datblygiad mathemategol plant, wrth iddynt symud rhan ohoni i rywbeth arall, er enghraifft trwy jygiau, poteli ac ati, sy'n rhoi hwb i'w iaith fathemategol gan ddeall bod pethau yn 'llawn' neu fod pethau yn 'wag', a'r gallu i ddeall y gwahaniaeth, ac i ddeall bod pethau yn gallu fod yn 'hanner llawn' neu 'nanner wag'. Gall adnoddau fel cerrig cael eu defnyddio i ysgrifennu rhifau yn fawr ar y llawr, sy'n eu hannog i gofio ac i ddysgu patrwm y rhifau o 1-10. Gall gegin fwd cael eu defnyddio er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau o fesur a phwyso gwahanol bethau, ac i ddeall bod gwahanol bethau, er enghraifft mwd a cherrig, yn pwyso gwahanol faint.

Mae rhai adnoddau mathemategol wedi eu creu ar gyfer plant yn sbesifig, er enghraifft teganau. Mae'r wefan Foundation Years (2009), yn dweud bod adnoddau fel rhifau sydd wedi eu lamineiddio yn eu helpu, wrth eu rhoi i fyny'r grisiau er mwyn i'r plant gyfri pob tro maen nhw yn cerdded heibio, mae pethau fel cyfrifianellau yn ddefnyddiol wrth iddynt chware, fel arfer bu plant yn eu defnyddio fel ffonau symudol, ond maen nhw'n eu galluogi i edrych ar y rhifau. Gall chwarae gemau syml fel dominoes hyrwyddo sgiliau mathemateg, wrth iddynt gyfri sawl cylch mae angen iddyn nhw

ddefnyddio, hefyd gall chwarae gyda numicons eu helpu wrth iddynt weld bod gwahanol rifau yn gallu creu rhif gwahanol, wrth eu gweld yn syml gan roi 2 darn neu fwy o numicon gyda'i gilydd.

Gan ystyried bod Froebel wedi creu siapau allan o bren ar gyfer plant i ddefnyddio, mae'n dda i ddweud bod blociau pren yn rhoi hwb i ddatblygiad mathemategol plant, ac fel arfer bu plant yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol a chorfforol wrth chwarae gyda blociau, fel dywedodd damcaniaeth Piaget. Wrth chwarae gyda blociau mae'n bosibl i blant i ddeall gwahaniaeth gyda maint, cyfaint eu harwynebau ac yn y blaen, sy'n eu caniatáu i osod y blociau yn drefn o ran maint, pwysau a lliw (Community Play Things, 2021).

Wrth ystyried y wefan 'Tops Days Nurseries' (2016), deallwn fod wahaniaeth enfawr rhwng teganau plastig ac eitemau naturiol, gwelwn fod adnoddau naturiol yn hynod o fwy defnyddiol a fwy effeithio ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar, oherwydd mae teganau plastig fel arfer yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer un peth, ac un peth yn unig, sef beth yr ydyn, er enghraifft tegell plastig. Ond, gall eitemau naturiol annog eu sgiliau motor cynnar, chwarae dychmygus ac ati, wrth iddynt feddwl beth allant wneud gyda rhywbeth yn sbesiffig. Gall pethau fel boncyffion coed a phlanciau pren annog iddynt i ddatblygu eu hyder ac i ddatblygu eu sgiliau ffisegol wrth iddynt ddringo a cheisio cydbwyso arnynt. Fel dyweda damcaniaeth Montessori, teganau naturiol a phren yw'r gorau, am eu bod yn teimlo yn wahanol wrth iddynt gael eu rhoi yn gwahanol dymheredd, ac mae eu pwysau yn newid wrth iddynt fod yn fwy neu yn llai, sydd yn annog plant i'w ddeall, ac mae teganau pren yn wneud cysylltiadau rhwng y plant ac y byd naturiol (Monti Kids, Dim Dyddiad), gall y defnyddiau naturiol dod yn ddefnyddiol wrth ystyried mathemateg, gallent gyfri sawl un sydd, grwpio eitemau, deall terminoleg yn fwy.

## Rhan 4

Mae rôl yr oedolyn yn hynod o bwysig wrth ystyried mathemateg yn y blynyddoedd cynnar, eu rôl nhw yw sicrhau bod gweithgareddau mathemategol wedi eu trefnu ar lefelau gwahanol, sydd yn addas ar gyfer yr holl blant, wrth iddynt ddysgu ar linell amser gwahanol. Bu plant yn dysgu mathemateg o oedran ifanc iawn, trwy edrych lan at oedolion fel eu model rôl, felly; dylai ceisio annog iddynt i ddysgu trwy chwarae gan ddefnyddio blociau, ceir, clai, chwarae llythrennedd, a dylai'r oedolion cynnig cyfleodd iddynt, sy'n well wrth iddynt eu cynllunio.

Wrth ystyried y Fframwaith Datblygiad Mathemategol Y Cyfnod Sylfaen (2015), mae dyletswydd gan yr oedolion i herio plant a'i ysbrydoli i weithio tuag at eu potensial llawn, trwy ofyn cwestiynau penagored a chwestiynau cyffredin, sydd yn annog eu diddordeb, ac mae disgwyl iddynt i wneud hyn trwy elfen o chwarae. Bu mathemateg yn elfen bwysig iawn o rôl yr oedolyn o fewn sefydliad, mae dyletswydd iddynt i ddatblygu gwybodaeth y plant ynghlyn a mathemateg, caiff datblygiad plant eu hymestyn yn well trwy ddysgu yn weithredol, felly dyma yw'r ffordd mae'r oedolion yn ceisio eu haddysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio teganau i ddeall rhifau syml. Mae'r oedolion yn ymwybodol bod plant yn dysgu drwy "ddyfalbarhau, rhoi sylw i fanylion, a chanolbwyntio", sy'n pwysleisio datblygiad deallusol. Mae gan i'r oedolion trefnu pa fath o weithgareddau maen nhw am wneud, gan ystyried pa adnoddau sydd angen a sut i'w addasu er mwyn eu creu yn addas ar gyfer pob disgybl. Mae'n bosibl iawn i addysgu mathemateg trwy'r dosbarth gan ddefnyddio eitemau ac ati, neu hyd yn oed wrth ei eistedd i lawr, ond yn ôl Piaget, mae plant yn dysgu orau wrth ddysgu yn weithredol, felly bydd eraill yn dysgu pant tu allan, wrth ddefnyddio adnoddau naturiol, er enghraifft y gegin fwd, cerrig neu dŵr, ac yn y blaen. Yn ôl y wefan 'Teach early Years' (Dim Dyddiad), rôl yr oedolyn yw dysgu plant mathemateg trwy eu gwneud un cam ar y tro, wrth symleiddio iaith, dangos beth i wneud, defnyddio lluniau neu fideos i'w helpu ac ati. Hefyd gall yr oedolion hyrwyddo mathemateg trwy ddefnyddio rhifau o amgylch yr ystafell, er enghraifft ar bwys pob switsh, neu bob sgwâr ar y to, gall hefyd defnyddia adran chwarae rôl i'w chefnogi hefyd, mae angen i'r ystafell edrych fel ei fod am hyrwyddo mathemateg mewn ffordd hwylus a syml ar gyfer y plant, nad ydynt eisiau eu hofni.

Caiff plant eu monitro a'i asesu trwy gydol ei oes ysgol, yn enwedig wrth fod yn ifanc, wrth ystyried mathemateg fel pwnc craidd, caiff eu hasesu yn fanwl, wrth ystyried beth yw eu cryfderau a'u gwendidau, beth allet wneud yn well ac ati. Mae hyn yn cael effaith bositif ar y plant wrth iddynt gael cymorth ychwanegol, os yw'n briodol, gan yr oedolion, sydd y neu annog i ganolbwyntio bach yn fwy ar dasgau syml sydd yn eu herio ynghlyn a mathemateg (McLane, Dim Dyddiad).

Yn debyg iawn, bu rôl yr oedolyn yn debyg yn Seland Newydd wrth eu cymharu â Chymru, mae dyletswydd gan yr oedolion i greu cydbwysedd rhwng chwarae rhydd a dysgu mathemateg ar ôl ei gynllunio, mae'n bwysig iawn i oedolion yn Seland Newydd i gynllunio beth maen nhw am wneud ynghlyn a mathemateg, ac felly maen nhw yn gallu gweld beth maen nhw yn mynd i wneud er mwyn ymestyn dealltwriaeth y plant, ac i'w wneud fel 'sgaffaldiau' sydd yn gallu ymestyn meddwl mathemategol pob plentyn i'w potensial llawn (Education Review Office, 2021).

## Rhestr Cyfeirnod

Community Play Things (Dim Dyddiad) *Block Play and Maths*. Available at: [Community Playthings | Block play and maths](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Cutler (Dim Dyddiad) *Support Maths with Materials in Your Home*. Available at: [Support Math with Materials in Your Home | NAEYC](#) (Accessed: 24 o Chwefror 2021).

Dunlop (Dim Dyddiad) *SEN: Monitoring Children's Progress*. Available at: [SEN: Monitoring Children's Progress | A Unique Child | Teach Early Years](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Early Learning HQ (Dim Dyddiad) *The use of group work in Primary Schools*. Available at: [Early Learning Resources The use of group work in primary schools - Free Early Years and Primary Teaching Resources \(EYFS and KS1\) \(earlylearninghq.org.uk\)](#) (Accessed: 21 o Chwefror 2021).

Education Review Office (2021) *A guide to children's early mathematics learning*. Available at: [A guide to children's early mathematics learning | Education Review Office \(ero.govt.nz\)](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Foundation Years (2009) *Children Thinking Mathematically*. Title (foundationyea Instructional Design (2021) *Social Development Theory*. Available at: [Social Development Theory \(Lev Vygotsky\) - InstructionalDesign.org](#) (Accessed: 20 o Chwefror 2021).)

Kimberly (2016) *7 Simple Ways to Add Mathematics to your Environment*. Available at: [7 simple ways to add mathematics to your environment \(earlyyearscares.com\)](#) (Accessed: 24 o Chwefror 2021).

Kimberley (2016) *How should mathematics be promoted within Early Years*. Available at: [How should mathematics be promoted within Early Years? \(earlyyearscares.com\)](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Llywodraeth Cymru (2021) *Cwricilwm i Gymru*. Available at: [Crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig - Hwb \(gov.wales\)](#) (Accessed: 23 o Chwefror 2021).

Llywodraeth Cymru (2021) *Fframwaith y Cyfbod Sylfaen*. Available at: [Fframwaith y Cyfnod Sylfaen - Hwb \(gov.wales\)](#) (Accessed: 21 o Chwefror 2021).

Llywodraeth Cymru (2015) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Available at: [Foundation Phase Mathematical Development WELSH.pdf \(uwtsd.ac.uk\)](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

McLane (Dim Dyddiad) *Student Progress Monitoring*. Available at: [Student Progress Monitoring: What This Means for Your Child | Reading Rockets](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Monti Kids (2020) *6 Reasons Montessori Loves Wooden Toys*. Available at: [6 Reasons Montessorians Love Wooden Toys - Monti Kids](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).

Tucker, K (Dim dyddiad) *Creating and Using a Mathematical environment*. Available at [EAEE4005TUC12.pdf \(uwtsd.ac.uk\)](#) (Pages 12-28).

Pilcher (Dim Dyddiad) *Health and Safety in the Nursery*. Available at: [Health & Safety in the Nursery | Early Years Management | Teach Early Years](#) (Accessed: 22 o Chwefror 2021).

Pound (2016) *Early Years Pionners*. Available at: [Early Years Pioneers - Jerome Bruner | Nursery World](#) (Accessed: 19 o Chwefror 2021).

Resources For Early Learning (2014) *Early Childhood Assessment*. Available at: [Early Childhood Assessment: Resources for Early Learning](#) (Accessed: 23 o Chwefror 2021).

Skills You Need (2021) *6 Benefits of Group Work*. Available at: [6 Benefits of Group Work | SkillsYouNeed](#) (Accessed: 21 o Chwefror 2021).

Stevens-Fulbrook (2019) *The Complete Guide to Jean Piaget's Theories*. Available at: [The Complete Guide To Jean Piaget's Learning Theories. \(teacherofsci.com\)](#) (Accessed: 20 o Chwefror 2021).

The School Run (2021) *What is Numicon*. Available at: [What is Numicon? | TheSchoolRun](#) (Accessed: 19 o Chwefror 2021).

Tops Days Nurseries (2016) *Are Natural toys better than Plastic?*. Available at: [Are natural toys better than plastic? - Tops Day Nurseries](#) (Accessed: 25 o Chwefror 2021).